# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 01-07

### Dyddiad y cyfarfod: 24 Ionawr 2007
### Amser y cyfarfod: 9:00am - 11:45am
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan (Prif Weinidog Cymru) | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Phillip Bird | Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi'r UE |

#### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc y Pwyllgor |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Anna Daniel | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler, AC; Glenys Kinnock, ASE; Eluned Morgan, ASE; Jonathan Evans, ASE; Jill Evans, ASE a Rose D’Sa.

1.2 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi

Papur: EUR(2) 09-06 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd
Papur: EUR(2) 01-07 - Camau heb eu cymryd

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd yn gywir.

2.2 Rhestr o gamau heb eu cymryd; cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu ‘papur i'w nodi’ ar gyfer y cyfarfod nesaf, ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn sefydliadau'r UE. Bydd hefyd yn rhoi adroddiad llafar yn y cyfarfod hwnnw.

## Eitem 3: Adroddiad y Prif Weinidog

Papur: EUR(2) 01-07 (p1)

3.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog ei adroddiad

- Camau i'w cymryd:
- Cytunodd y Prif Weinidog i baratoi adroddiad ar y trafodaethau sy'n digwydd ar ddyfodol y Cytuniad Cyfansoddiadol hanner ffordd drwy Lywyddiaeth yr Almaen.
- Cytunodd y Prif Weinidog i hysbysu'r Pwyllgor am y posibilrwydd o gyfnewid diwylliannol rhwng Llydaw a Chymru, pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.
- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch safbwynt yr UE o ran y posibilrwydd o gynnal trafodaethau â Llywodraeth Balestinaidd gyfreithlon ar ôl yr

etholiadau, a hynny pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.
- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu nodyn cyn y cyfarfod nesaf, ynghylch nifer y busnesau yng Nghymru y mae'r Rheoliadau REACH yn debygol o effeithio arnynt.
- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu adroddiad interim ar y rhaglen Discover UK yn Tsieina cyn y cyfarfod nesaf.

## Eitem 4: Cyllideb yr UE ar gyfer Prosiectau Amgylcheddol

Papur: EUR(2) 01-07 (p2)

4.1 Cyflwynodd cynrychiolwyr RSPB Cymru eu papur.

Camau i'w cymryd:

- Y Clerc i anfon nodyn o'r cyfarfod at Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

## Eitem 5: Cyllid Cystadleurwydd a Chyllid Cydgyfeirio’r UE (WEFO)

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod Cyllid Cystadleurwydd a Chyllid Cydgyfeirio'r UE.

Camau i'w cymryd:

- Y Clerc i ddrafftio ymateb i'r ymgynghoriad, yn seiliedig ar sylwadau'r Aelodau, a'i gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) erbyn dydd Gwener, sef y dyddiad cau.

## Eitem 6: Y newyddion diweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

6.1 Cyflwynodd Janet Davies AC, Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Camau i'w cymryd:

- Cytunodd y Prif Weinidog i wneud ymholiadau ynghylch cynrychiolaeth Cymru yng Nghyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop ac adrodd yn ôl os bydd angen.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau